

**Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda staff a llywodraethwyr yn
Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton**

Dydd Mawrth 20 Tachwedd 2018 am 4.00pm

**Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn ardal
Pontypridd**

Yn bresennol

Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Sophie Nicholls, Swyddog Graddedig Carfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
Non Morgan - Arweinydd Carfan Trefniadaeth a Llywodraethu Ysgolion
Andrea Richards, Pennaeth Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
29 o aelodau o staff yr ysgol a'r corff llywodraethu

Cyflwyniadau

Croesawodd Gaynor Davies (GD) bawb i'r cyfarfod ac amlinellu'r cynnig, y rhesymau dros y cynnig, pwrpas y cyfarfod, y broses ymgynghori a'r amserlenni yn ymwneud â'r broses ymgynghori a'r cynigion eu hunain pe baen nhw'n cael eu gweithredu.

Pe bai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith, byddai'r Cyngor am wneud y canlynol:

- Datblygu cyfleusterau addysg ôl-16 oed yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Y Beddau, a Choleg y Cymoedd, Nantgarw;
- Creu dwy ysgol 3-16 oed newydd ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen;
- Gwella a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy adeiladu ysgol newydd ar safle Ysgol Heol y Celyn - byddai'r adeilad yn uno'r ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Heol y Celyn ac Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton;
- Diwygio dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen a dalgylch 6ed dosbarth Ysgol Gyfun Bryncelynnog i fodloni'n well y galw am leoedd ysgol;

Bydd y newidiadau yma yn cael eu cyflawni drwy wneud y canlynol:

- Cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain a throsglwyddo'r ddarpariaeth ôl-16 oed i Ysgol Gyfun Bryncelynnog neu Goleg y Cymoedd, Nantgarw. Ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n dewis addysg Gatholig, bydd darpariaeth chweched dosbarth ar gael yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd;
- Cau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd, a chreu ysgol 'bob oed' 3 -16 oed newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd;

- Cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn a chreu ysgol 'bob oed' 3-16 oed newydd ar safle Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y Ddraenen Wen. Bydd dosbarth arbenigol ADY dynodedig yr awdurdod lleol sydd wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen hefyd yn cael ei symud i'r ysgol newydd.
- Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd a bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Heol y Celyn yn symud i'r ysgol 3-16 oed newydd yn y Ddraenen Wen.

Diwygio'r dalgylchoedd i ddisgyblion 11-16 oed o'r tair ysgol uwchradd a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol drwy wneud y canlynol:

- Trosglwyddo ardal y Graig ym Mhontypridd (sy'n rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Maes-y-coed) i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (Y Ddraenen Wen ar hyn o bryd)
- Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Coedpenmaen i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (Y Ddraenen Wen ar hyn o bryd)
- Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Gwauncelyn i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer y Ddraenen Wen (Bryncelynnog ar hyn o bryd)

Y bwriad yw rhoi'r newidiadau ar waith erbyn Medi 2022.

Cyfeiriodd GD at yr wybodaeth fanwl sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori a oedd wedi'i dosbarthu, a'r ffurflen ymateb ynghlwm wrthi, (roedd rhagor o gopiâu o'r ddwy yn y cyfarfod) ac at dudalen 5 o'r ddogfen ymgynghori sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut gall pobl roi sylwadau.

Eglurodd GD y byddai'r cwestiynau / sylwadau / ymatebion yn cael eu cofnodi i'w cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori a fyddai'n cael ei fwydo yn ôl i'r Cabinet yn gynnar ym mis Ionawr 2019, ac adborth gan ddisgyblion yn yr un modd. Pwysleisiodd GD mai cyfnod ymgynghori oedd hwn a phe bai'r cynigion yn mynd rhagddyn nhw i'r cam nesaf (hysbysiad statudol), byddai gwrthwynebiadau yn cael eu derbyn a'u cofnodi ar y cam hwnnw.

Yna, cafodd cwestiynau eu gwahodd.

C. Mae tua 60 o leoedd yn y ddarparieth feithrinfa – fyddai disgyblion y feithrinfa yn y prif adeilad neu yn y ganolfan bresennol sydd ar y safle ar bwys yr ysgol?

A. Yn y prif adeilad.

C. O ran anghenion arbennig, fyddai uned yn rhan o'r ysgol lle gallai staff fynd ac addysgu'r plant hynny neu drafod anghenion y plant hynny? Rydw i'n meddwl y byddai uned o fudd i'r plant, staff a rhieni.

A. Mae 47 o ddsbarthiadau cynnal dysgu ledled RhCT ac rydyn ni'n adolygu'r rhain yn rheolaidd i sicrhau gan gyda ni'r darpariaethau cywir. Mewn rhai Awdurdodau Lleol, bydd dosbarth Cynnal Dysgu arbennig yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac rydyn ni'n adolygu hyn yn rhan o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP). Dangosodd y gwerthusiad diwethaf nad oedd digon o alw i fodloni'r angen am hyn. Rydyn ni hefyd yn ceisio sicrhau bod unrhyw leoliadau rydyn ni'n eu creu yn addas ar gyfer y dyfodol. Rydyn ni'n ceisio datblygu darpariaeth ar draws y cyfnodau lle bo'n bosibl. Dydy'r ddarpariaeth benodol hon yn rhan o'r cynnig yma, ond rydyn ni'n ceisio sicrhau bod yna ystafell benodol gallen ni ei defnyddio ar gyfer hyn, pe bai galw amdani yn y dyfodol. Mae darpariaethau canolog yn ddelfrydol a byddwn ni'n adolygu hyn yn barhaus.

A. Mae ysgol gwbl gynhwysol yn rhan o amodau'r grant. Bydd adeilad sy'n gwbl addas ar gyfer unrhyw blentyn a bydd e'n gwbl hygyrch.

C. Yng Nghwm-bach, mae lleoliad o'r enw 'Rainbows' a chaiff yr ysgol ei ddefnyddio i gael cyngor staff arbenigol. Trwy wneud hyn, does dim rhaid mynd trwy weithdrefnau hir.

A. Mae'r lleoliad 'Rainbows' yn ddarparwr annibynnol sy'n llogi'r lle sy'n agos i'r ysgol. Un o'r pethau sydd wedi'i godi yw gofal cyn ac ar ôl oriau ysgol – mae hyn wedi'i grybwyll yn y broses ymgynghori hon ac rydyn ni'n edrych arno. Rydyn ni'n cynnal ymgynghoriad ar wahân ar gynigion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), yn ogystal â'r ymgynghoriad hwn. Mae cyllideb ar wahân ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg ac ymyrraeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer ADY ac rydyn ni'n cytuno â hyn.

C. Amserlenni o ran hyn. Os bydd yr ysgol yn agor yn 2022, oes modd i chi esbonio'r broses gan ddechrau o'r flwyddyn honno yn ôl yn nhermau staff a llywodraethwyr ac ati, hynny yw o gadarnhad yr Awdurdod Lleol i agor yr ysgol?

A. Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydden ni'n sefydlu corff llywodraethu dros dro a byddai cynrychiolwyr yn cael eu dewis gan banel penodiadau'r Awdurdod Lleol. Caiff llywodraethwyr presennol yr ysgolion wedi'u heffeithio yn unig wneud cais i fod yn aelod o'r corff llywodraethu dros dro. Ar ôl i'r corff gael ei sefydlu, byddai'r corff llywodraethu yn penodi'r pennaeth, wedyn byddai strwythur o ran staff yn cael ei greu gan y pennaeth a'r corff llywodraethu dros dro. Byddai'r corff llywodraethu dros dro hefyd yn gyfrifol am faterion sefydliadol e.e. gwisg ysgol, cynigion enwi'r ysgol ac ati. Bydden ni'n annog y corff llywodraethu a'r pennaeth i ymgynghori â disgyblion hefyd.

A. Rydyn ni'n mynd ati i ddechrau'r broses recriwtio o leiaf dwy flynedd cyn mis Medi 2022. Mae'n cymryd peth amser i fynd trwy'r broses ond ar ôl i'r pennaeth gael ei benodi, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda fe ar y strwythur. Mae'r swyddi fel arfer yn cael eu dyrannu i staff presennol yn y lle cyntaf. Os nad oes modd llenwi swyddi, yna byddan nhw'n cael eu hysbysebu'n allanol. Rydyn ni wrthi'n gwneud hyn yn llwyddiannus yng Ngarth Olwg. Pwynt technegol arall yw bod y ddwy ysgol yn cau, felly mae swyddi'r holl aelodau o staff yn cael eu dileu. Caiff yr aelodau hynny o staff sydd eisiau dileu eu swyddi o wirfodd neu ymddeol wneud hynny. Rydyn ni'n ceisio gwneud hyn cyn gynted ag sy'n bosibl i sicrhau eich bod chi, fel staff, yn effro i'r hyn sy'n digwydd. Os na fyddwch chi'n llwyddiannus, rydyn ni'n rhoi opsiwn i ysgolion eraill yn RhCT geisio creu cyfle i unigolyn arall ymddeol ac yna llenwi ei swydd (bump redundancy). Mae nifer o brosesau mae modd i ni eu dilyn i'ch cefnogi chi trwy'r cyfnod yma.

C. Ydy swyddi yn cael eu hysbysebu'n fewnol yn unig?

A. Rydyn ni'n argymhell i'r llywodraethwyr wneud hynny. Serch hynny, penderfyniad y llywodraethwyr fyddai hyn. Mae pob ysgol wedi gwneud hynny hyd yn hyn.

C. Pryd byddai angen penodi'r pennaeth? Fyddai'r unigolyn hwnnw yn bennaeth yr ysgol newydd a'r ysgol bresennol?

A. Na fyddai, dim ond pennaeth yr ysgol newydd. Mae llawer o waith yn rhan o hyn, a byddai'r pennaeth yn chwarae rhan fawr yng ngwaith dylunio'r adeilad hefyd.

A. Bydd yr ymgynghoriad ar agor am sbel. Mae'n cymryd tua 18 mis i brosesau amrywiol ddigwydd ac yna mae'r gwaith adeiladu yn cael ei gynnal. Byddwch chi'n rhan o hyn. Yn ddelfrydol, hoffem ni ddechrau adeiladu yn 2020. Byddai tua 18 mis o waith adeiladu ar y safle.

C. Fyddai disgyblion ddim yn symud tan 2023?

A. Na fydden, bydd yr adeilad yn barod erbyn Mehefin 2022, a byddai'r disgyblion yn symud i'r ysgol ym mis Medi 2022.

C. Rydyn ni'n delio â materion diogelu plant yn bob dydd a hoffwn i swyddog diogelu plant ar y safle. Fydd hyn yn digwydd?

A. Bydd y llywodraethwyr a'r pennaeth yn penderfynu ar y strwythur o ran staff a chewch chi, fel staff, ymgynghori ar hwn. Yn y gorffennol, mae strwythurau wedi cael eu newid.

A. Y fantais o ysgol fwy yw bod mwy o staff sy'n arbenigo ym meysydd penodol.

C. O ran ADY ac ati, mae angen i ni wneud yn siwr bod yna rywun sy'n edrych ar hyn gan y bydd hi'n ysgol fawr.

- A. Mae diwygiadau ADY newydd yn dangos y gallai hyn fod yn swydd arwain mewn ysgolion newydd hefyd.
- C. *Mae'r asesiad effaith ar gydraddoldeb ar-lein yn nodi – "As the proposal for Pont Sion Norton is the relocation and expansion of the school, the staff of Pont Sion Norton will stay with the school and will be extended".***
- A. Mae hyn wedi cael ei ddiwygio ers hyn.
- C. *Mae wedi'i nodi yn yr adran effaith ar gydraddoldeb ac mae ar y wefan. Pam mae wedi cael ei newid?***
- A. Mae llawer o drafodaethau wedi digwydd ac rydyn ni wedi edrych ar hyn ac wedi penderfynu y bydd hi'n deg ar bawb i gau'r ddwy ysgol ac rydyn ni eisiau cynnwys hyn yn yr ysgol fwy newydd. Rydyn ni wedi gwneud hyn yn rhan o gynigion blaenorol, ac roedd ond dau berson nad oedden nhw wedi cael swyddi yn yr ysgolion newydd.
- A. Rydyn ni'n ceisio bod yn deg i adran Gymraeg Heol y Celyn hefyd.
- A. Pe bai pobl eisiau gadael, byddai modd iddyn nhw adael ac ymddeol. Pe na baen ni'n cau'r ddwy ysgol, byddai rhaid i ni ddweud nad oes modd i bobl ymddeol.
- C. *2022 yw'r flwyddyn pan fydd y cwricwlwm newydd yn digwydd, a 2020 yw'r diwygiadau ADY. Mae addysg yng Nghymru yn newid yn sylweddol. Yn ystod cyfnod o aflonyddwch fel hwn, sut ydych chi'n lliniaru hyn yn erbyn gweithredu'r cwricwlwm newydd?***
- A. Dydy rhai o'n hysgolion ddim yn addas ar gyfer yr 21ain Ganrif. Trwy adeiladu'r ysgol newydd, mae modd i ni allu sicrhau bod yr ysgol hon yn addas ar gyfer y dyfodol, bod technoleg ddigidol yn gyfoes a bod yr ardaloedd dysgu yn ddigon hyblyg ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae modd dadlau mai dyma gyfnod perffaith i wneud hyn a llywio'r ysgol ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn nhermau lliniaru hyn, mae gyda ni garfan fawr sy'n arbenigo ym meysydd gwahanol all helpu i wneud hyn yn broses ddi-dor. Mae'r holl brosiectau wedi cael eu cynnal yn brydlon, ar wahân i Donyrefail o ganlyniad i adeilad rhestredig a'r problemau cysylltiedig mae hynny wedi'u hachosi. Mae angen i ni wneud yn siwr bod addysgu a dysgu o safon uchel a sicrhau nad oes aflonyddwch. Bydd yr ysgol yn parhau i weithredu yma yn y cyfamser.
- C. *Rydyn ni wedi dechrau siarad â staff yn barod yn Adran Gymraeg Heol y Celyn i sicrhau ein bod ni'n gytûn yn nhermau addysg cyfrwng Cymraeg y cwricwlwm newydd.***
- A. Rydyn ni'n dylunio ysgolion newydd i fodloni'r cwricwlwm newydd. Rydyn ni'n gofyn cwestiynau heriol o ran dyluno ac rydyn ni'n gwthio penseiri i roi rhagor o wybodaeth i ni i sicrhau bod ysgolion yn addas ar gyfer y dyfodol.

C. Oes unrhyw gynigion i wella'r sefyllfa o ran traffig?

- A. Mae asesiad effaith traffig cadarn yn cael ei gynnal a bydd unrhyw fesurau arafu traffig sydd eu hangen yn cael eu gweithredu, yn ogystal â bodloni unrhyw argymhellion wedi'u gwneud. Mae gan rai ysgolion gylchoedd troi ac ati i leihau'r amser y caiff rhieni barcio ar y safle ond byddwn ni'n ymchwilio i hyn.
- A. Bydd hyn hefyd yn amod cynllunio ac mae angen i ni sicrhau ei bod hi'n ddiogel ar gyfer disgyblion a bod digon o lefydd. Rydyn ni'n edrych yn fwy eang na Stryd y Celyn yn unig i sicrhau bod disgyblion yn mynd ar eu bysiau ysgol yn ddiogel.

C. Ydy'r arian ar gyfer yr ysgol yn ystyried y cysylltiadau hyn neu oes arian ychwanegol?

- A. Dyma arian ychwanegol i greu llwybrau diogel ac rydyn ni wedi gwneud hyn gyda £440,000 yn y Porth. Bydd hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob un o'r ysgolion sy'n rhan o'r cynnig hwn. Rydyn ni'n ariannu hyn gan ddefnyddio cyllid cyfalaf craidd y Cyngor, gan fod diogelwch disgyblion o'r pwys mwyaf i ni.

Rhagor o wybodaeth:-

Cewch chi gyflwyno ymholiadau ar-lein o hyd a bydd achlysur ym mis Ionawr ar eich cyfer a'r gymuned.

Cewch chi hefyd anfon neges i gyfeiriad e-bost yr adran cynllunio ysgolion a byddwn ni'n ateb eich ymholiadau.

Rhodddwyd diolch i bawb am eu sylwadau ac am ddod i'r cyfarfod. Daeth y cyfarfod i ben.